



## Cam Sylfaen

Ymweliad bore a 2 sesiwn wedi eu hwyluso hyd at 1 awr ag un weithgaredd o dan arweniad athro neu llwybr hyd at 1 awr.

Disgrifiad byr:  
Dewch yn ôl mewn amser i gwrdd â Mr Trevithick, y dyn a ddyfeisiodd y trên stêm cyntaf, a chymryd rhan yn ei gyflwyniad bywiog. Defnyddiwch eich sgiliau datrys problem i'w helpu gyda'i broblemau peirianeg. Cewch glywed stori syfrdanol y dyn cyntaf i ddylunio ac adeiladu awyren yng Nghymru hefyd.  
Defnyddiwch ein blwch Trafnidiaeth neu lwybrau i ddarganfod mwy am y cerbydau yn ein horielau.

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

### Amser a phobl

#### Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, e.e. *y newidiadau sy'n digwydd iddynt hwy eu hunain a phobl a mannau cyfarwydd*
- sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithredoedd a bod y gweithredoedd hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau
- dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, e.e. *trwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol*



Allwn addasu'r sesiwn yma ar gyfer grŵpiau anghenion arbennig – Cysylltwch â ni i drafod – [learning.waterfront@museumwales.ac.uk](mailto:learning.waterfront@museumwales.ac.uk)  
02920 573 600

## Amcanion dysgu:

- Dysgu am drafnidiaeth yn y gorffennol; yr hyn sydd wedi newid ar hyn sydd yr un fath.
- Dysgu am ddatblygiadau dyfeisiau cynnar trafnidiaeth ar gledrai ac yn yr awyr.
- Deall sut y mae pobl yn datrys problemau er mwyn goresgyn anawsterau.
- Dod yn ymwybodol o lwyddiant a'r syniadau mawr sydd wedi dylanwadu ar y byd.
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn wahanol ac yn debyg.

## Awyrennau, Trenau a Cheir

| Gweithgaredd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Sgiliau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Fframwaith Llythrenedd a Rhifedd                                                                                                                                                                                                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Sesiwn o dan arweiniant actor:</b> Yn ystod y sesiwn 40 munud hwn, fe fydd y plant yn cael cyfle i gwrdd â Mr Trevithick, actor, a fydd yn adrodd y stori am ei ddyfais enwog - y trên stem cyntaf yn y byd. Fe fydd y plant yn dod i wybod mwy am yr hyn a ddigwyddodd yn Merthyr Tudful ar anawsterau wynebwyd Mr Trevithick i gael y trên i symud. Fe fydd cyfle i rhai cymryd rhan a gwisgo lan fel rhan o'r cyflwyniad. Cofiwch all y plant paratoi cwestiynau o flaen llaw i ofyn i Mr Trevithick.</p> <p><b>Sesiwn Robin Goch:</b><br/>Yn ystod y sesiwn 20 munud o dan arweiniant hwylusydd, fe fydd y plant yn cael cyfle i ddysgu mwy am ddylunio ac adeiladu y Robin Goch, un esiampl o'r awyren cynharach ym Mhrydain. Fe fydd y palnt yn cael cyfle i glywed mwy am y perianydd a adeiladodd yr awyren, Charles Horace Watkins.</p> <p><b>Llwybr Trafnidiaeth:</b> Yn ystod yr awr yma o dan arweiniant athro fe fydd cyfle i'ch dosbarth ddewis llyfr llwybr.</p> <p><b>Opsiwn 1:</b> I blant yn iau cewch ddewis defnyddio'r amser yma i dynnu lluniau arsylwi o'r gwrthrychau trafndiaeth sydd yn ein horiel. Dylid sicrhau eich bod yn dod a phensiliau, papur a chlipfwrdd gyda chi ar eich ymweliad. Mae yna flychau Trafnidiaeth ar gael yn ogystal â thaflen 'Dewch i Archwilio', os ydych am ddefnyddio'r rhain yn ystod eich ymweliad, awgrymir eich bod yn eu harchebu o flaen llaw i sicrhau fod yna rhai ar gael ar gyfer eich grŵp.</p> <p><b>Opsiwn 2:</b> I blant yn hyn ellid defnyddio'r awr yma i gwblhau llyfr waith sydd wedi ei seilio o amgylch y gwahanol fathau o wrthrychau trafndiaeth sydd yn yr Amgueddfa - awyrennau, trenau a cheir. Awgrymir eich bod yn</p> | <p><b>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dod yn ymwybodol o gyflawniadau pobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi dylanwadu ar y byd</li> <li>• llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau</li> <li>• meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion</li> </ul> <p>Ystod:<br/><b>Amser a phobl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, e.e. <i>y newidiadau sy'n digwydd iddynt hwy eu hunain a phobl a mannau cyfarwydd</i></li> <li>• sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithredoedd a bod y gweithredoedd hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau</li> <li>• dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, e.e. <i>trwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol</i></li> </ul> | <p><b>Llythrenedd - Llafaredd:</b></p> <p><b>Elfennau:</b> Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau</p> <p><b>Agweddau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwrando<br/>Cod – 2.OL1, 2.OL2a, 2.OL3, 2.OL4</li> </ul> |

## Awyrennau, Trenau a Cheir

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |  |  |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| lawr lwytho'r llyfr gwaith cyn eich ymweliad - gofynnwch am gopi wrth archebu'r sesiwn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |  |  |
| <p><b>Adnoddau fydd eich grwp yn defnyddio yn ystod yr ymweliad:</b></p> <p><b>Blychau Archwilio Trafnidiaeth:</b> Rhaid i chi archebu rhain cyn eich ymweliad. Cewch focs sydd yn cynnwys gwrthrychau a gweithgareddau. Fe fydd nodiadau ar gyfer arweinwyr y grwp yn y bocs.</p> <p><b>Llwybr Trafnidiaeth:</b> Ar gyfer plant yn hyn – Rhaid archebu hwn o flaen llaw a argraffu copiau cyn eich ymweliad.</p> <p><b>Dewch i Archwilio:</b> Y mae'r taflen yma ar gyfer plant yn iau ac ar gael o'r Amgueddfa os ydyw wedi archebu o flaen llaw.</p> <p><b>Gwybodaeth lechyd a Diogelwch:</b><br/><a href="http://www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/addysg/sut_i_archebu/">http://www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/addysg/sut_i_archebu/</a></p>                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |
| <p><b>Gweithgareddau paratoi:</b></p> <p><b>Trenau</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Edrychwch ar hen fapiau sydd yn dangos y rheilffyrdd a 'r camlesu, siaradwch am yr hyn y mae'n cymryd i gwblhau taith. All y plant weithio gyda'i gilydd i greu map mawr ar gyfer y dosbarth.</li><li>• Edrychwch ar faint y gwahanol fathau o dtrafnidiaeth - cymharwch geffyl a chart, cwch camlas, a thrên; a ble y maent yn mynd a sawl un allwch ffitio i bob un.</li><li>• Edrychwch ar hen fapiau a lluniau awyrol o drefi sydd yn dangos rheilffyrdd. Cymharwch yr hen a'r newydd.</li><li>• Adeiladwch fap o drefi sydd yn dangos lle yr oedd y rheilffyrdd a'r tramiau yn rhedeg yn y gorffennol.</li><li>• Trefnwch luniau o dtrafnidiaeth i mewn i gategoriâu pweru gwahanol - dynol/ ceffyl/ stem/ petrol.</li><li>• Trafodwch y gwahaniaeth rhwng yr amser fyddai siwrne yn cymryd yn y gorffennol gan ddefnyddio trafndiaeth fel cwch camlas neu drên i gymharu â thrafnidiaeth sydd ar gael heddiw.</li></ul> |  |  |

## Awyrennau, Trenau a Cheir

### **Awyrennau**

- Gwnewch linell amser o awyrennau. Rhowch dri llun o awyrennau i'r grŵp a'i trefni yn ôl oedran. Os yn addas all y grŵp ysgrifennu brawddeg am bob llun.